

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu Tegwch yn y Farchnad

Mawrth 2022





Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: **[Sara.Moran2@senedd.cymru](mailto:Sara.Moran2@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu Tegwch yn y Farchnad

Mawrth 2022

---

Golygydd: Sara Moran



Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod y telerau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r gyfres hon yn crynhoi rhannau allweddol o'r Cytundeb a'i oblygiadau i Gymru.

Ymadawodd y DU â'r UE yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2019 a dechreuwyd ar gyfnod pontio tra bod telerau ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar delerau eu perthynas yn y dyfodol yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ochr yn ochr â nifer o gytundebau a datganiadau ar y cyd eraill.

Daeth y cytundeb i rym dros dro o 1 Ionawr 2021, wrth aros am gadarnhad y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn dilyn y **Cytundeb Ymadael**, a oedd yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r ddau gytundeb yn parhau mewn grym.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu cytundebau yn y dyfodol rhwng:

- y DU a'r UE;
- y DU a'r UE a'r 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE; a
- chytundebau dwyochrog rhwng y DU ac Euratom

oni bai bod cytundebau o'r fath yn darparu fel arall. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau atodol' yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac maent yn rhan o'r fframwaith cyffredinol fel rhan annatod o'r cysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a'r UE.

---

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Tegwch yn y farchnad: yr hanfodion .....</b>	<b>2</b>
<b>3. Rheolau cyffredinol .....</b>	<b>7</b>
<b>4. Rheolau penodol: rheoli cymorthdaliadau .....</b>	<b>8</b>
<b>5. Rheolau penodol: safonau llafur a chymdeithasol.....</b>	<b>10</b>
<b>6. Rheolau penodol: yr amgylchedd a'r hinsawdd .....</b>	<b>13</b>
<b>7. Datblygu Cynaliadwy .....</b>	<b>16</b>
<b>8. Datrys anghydfodau .....</b>	<b>17</b>
<b>9. Adolygu .....</b>	<b>19</b>
<b>Atodiad: Mesurau ail-gydbwyso yn fanwl .....</b>	<b>21</b>

---

## 1. Cyflwyniad

Mae gan y DU a'r UE drefniadau newydd ar waith sy'n anelu at gynnal cystadleuaeth agored a theg rhyngddynt o ran masnach a buddsoddi, mewn modd sy'n gydnaws â datblygu cynaliadwy. Gelwir hyn yn 'degwch yn y farchnad'.

Gellir dod o hyd i ddarpariaethau tegwch yn y farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn **Nheiti XI o Bennawd Un o Ran Dau**.

### Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

- Mae **Adran 2** yn egluro **hanfodion tegwch yn y farchnad**;
- Mae **Adrannau 3-6** yn esbonio'n **fanylach** sut mae'n gweithio, gan gynnwys rheolau penodol ar **reoli cymorthdaliadau, safonau llafur a chymdeithasol** a **safonau amgylcheddol a'r hinsawdd**;
- Mae **Adran 7** yn egluro'n fanylach sut mae'r darpariaethau **datblygu cynaliadwy** yn gweithio;
- Mae **Adran 8** yn egluro sut gellir datrys **anghydfodau** ynghylch tegwch yn y farchnad; ac
- Mae **Adran 9** yn egluro'r **broses o adolygu** tegwch yn y farchnad.

## 2. Tegwch yn y farchnad: yr hanfodion

Cyn diwedd cyfnod pontio Brexit, yr un oedd rheolau'r DU a'r UE. Nawr bod y cyfnod pontio wedi dod i ben, gall eu rheolau ar gyfer pob math o bethau amrywio neu aros yr un peth. 'Dargyfeirio' yw'r term a ddefnyddir pan fo rheolau'n wahanol. 'Aliniad' yw'r term a ddefnyddir pan fydd rheolau yn aros yr un fath. Mae'r DU a'r UE am sicrhau 'tegwch yn y farchnad' rhyngddynt o ran masnach a buddsoddi. Drwy wneud hyn, maent yn gobeithio cadw'r gystadleuaeth rhyngddynt yn agored ac yn deg.

Ar gyfer y system newydd hon, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i ddefnyddio cyfuniad o fecanweithiau. Ategir y system hon gan ymrwymiad i weithredu mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygu cynaliadwy.

Crynhwir mecanweithiau Tegwch yn y Farchnad ac ymagwedd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu at ddatblygu cynaliadwy isod.

### **Mecanweithiau**

Y mecanweithiau yw:

- Dim atchwelyd
- Mesurau dargyfeirio ac ail-gydbwysio
- Rheolau
- Ymrwymadau rhyngwladol
- Datrys anghydfodau

Mae'r rhain yn allweddol i ddeall darpariaethau Tegwch yn y Farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae gwahanol fecanweithiau'n berthnasol i wahanol rannau o Degwch yn y Farchnad, gan wneud y rhan hon o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gymhleth. Eglurir pob un yn fanylach isod.

### **Dyletswydd dim atchwelyd**

---

Nod dyletswydd dim atchwelyd yw atal safonau neu lefelau amddiffyn rhag cael eu

---

lleihau, eu gwanhau neu eu 'treiglo'n ôl'.

O ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE, roedd gan y DU a'r UE yr un safonau a lefelau o amddiffyniad ar waith ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit, ar 31 Rhagfyr 2020.

Yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, y nod yw cynnal, cyn belled ag y bo modd, safonau gofynnol ar gyfer masnach a buddsoddi rhwng y DU a'r UE. Mae'r ddyletswydd dim atchwelyd yn golygu na ddylai safonau gael eu gostwng, eu gwanhau na'u 'treiglo'n ôl' i'r sefyllfa cyn 31 Rhagfyr 2020.

Fel isafswm, rhaid i'r DU a'r UE gynnal y safonau a'r lefelau amddiffyn a oedd ar waith ganddynt ar 31 Rhagfyr 2020. Os na wnânt, gall y parti arall ymateb gan ddefnyddio mesurau dros dro.

Mae'r ddyletswydd yn cynnwys methu â gorfodi'r gyfraith a safonau yn effeithiol.

Nid yw'r ddyletswydd dim atchwelyd yn berthnasol i bob rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Mae'r ddyletswydd dim atchwelyd yn berthnasol i:

- safonau llafur a chymdeithasol
- safonau amgylcheddol a'r hinsawdd

## **Dargyfeirio a mesurau ail-gydbwysu**

---

Nawr bod y DU wedi gadael yr UE, gall reoleiddio a gosod safonau gwahanol. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn caniatáu i safonau ddargyfeirio.

Fodd bynnag, lle mae dargyfeirio yn cael 'effaith sylweddol' ar fuddsoddiad **neu** ar fasnach [DU-UE], gall y naill barti neu'r llall gymryd mesurau ail-gydbwysu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd.

Gall mesurau ail-gydbwysu gynnwys cyflwyno tariffau ar nwyddau (sydd fel arall yn cael eu dileu o dan delerau masnachu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu) neu atal rhannau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu dros dro. Gellir cymhwyso mesurau hefyd ar draws gwahanol rannau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fel y gall dargyfeirio mewn un maes arwain at fesurau ail-gydbwysu mewn maes arall.



Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn nodi gweithdrefn benodol i'w dilyn wrth gychwyn mesurau ail-gydbwysu, sydd i'w gweld yn Erthygl 411.

Nid yw mesurau ail-gydbwysu yn berthnasol i bob rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Gellir cymryd camau ail-gydbwysu mewn perthynas â:

- safonau llafur a chymdeithasol;
- safonau amgylcheddol a hinsawdd; neu
- reoli cymorthdaliadau.

Mae'r darpariaethau ar fesurau ail-gydbwysu, gan gynnwys rheolau a gweithdrefnau perthnasol, yn cael eu hesbonio'n fanwl **mewn Atodiad** i'r canllaw hwn.

## **Rheolau**

---

Yn ogystal â'r mecanweithiau dim atchwelyd ac ail-gydbwysu a ddisgrifir uchod, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn rhoi rheolau cyffredinol a phenodol ar waith i gynnal Tegwch yn y Farchnad.

Mae'r rheolau cyffredinol yn nodi targedau presennol y DU a'r UE a chyd-ddealltwriaeth ar niwtraliaeth hinsawdd, safonau'r dyfodol a'r dull rhagofalus. Mae hyn yn amrywiad ar yr egwyddor ragofalus, a ddefnyddir mewn **Ilywodraethu amgylcheddol**.

Mae'r rheolau penodol yn cwmpasu:

- Polisi cystadleuaeth
- Rheoli cymorthdaliadau
- Mentrau sy'n eiddo i'r wladwriaeth
- Trethi
- Safonau llafur a chymdeithasol
- Yr amgylchedd a newid hinsawdd
- Offeryn arall ar gyfer masnach a datblygu cynaliadwy
- Darpariaethau llorweddol a sefydliadol

## Ymrwymïadau rhyngwladol

---

Mae darpariaethau Tegwch yn y Farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn ailddatgan ymrwymïadau rhyngwladol y DU a'r UE ac yn rhestru llawer o safonau a chytuniadau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy neu gymryd camau i'w cadarnhau – er enghraifft, Confensiynau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol a Siarter Gymdeithasol Ewrop.

## Prosesau anghydfod ac adolygu

---

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu proses bwrpasol i ddelio ag anghydfodau o ran ei ddarpariaethau Tegwch yn y Farchnad, a grynhoir yn **adran 8 y canllaw hwn**. Mae hyn yn ffurfio rhan bwysig o broses adolygu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar gyfer ei darpariaethau masnach, a grynhoir yn **adran 9**.

## Datblygu cynaliadwy

Ategir Tegwch yn y Farchnad gan ymrwymïad i weithredu mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygu cynaliadwy.

Amlinellodd y DU a'r UE eu dealltwriaeth gyffredin o ddatblygu cynaliadwy i gwmpasu:

- datblygu economaidd;
- datblygu cymdeithasol; a
- diogelu'r amgylchedd.

Mae mwy o fanylion wedi eu cynnwys yn adran **7 yn y canllaw hwn**.

## Beth mae tegwch yn y farchnad yn ei olygu i Gymru?

Gan fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cyflwyno'r posibilrwydd o ddargyfeirio (gwahaniaethau) neu aliniad (tebygrwydd) o ran safonau a rheolau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, bydd hyn hefyd yn berthnasol i Gymru.

Gall hyn ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd, fel yr eglurir gan yr **Institute for Government**:

[R]egulatory divergence between the UK and EU will occur over time – either actively, when the UK decides to regulate in its own way, or passively, when EU rules change without the UK following suit.

This may not be uniform across the four nations, with Northern Ireland obliged to stay aligned with some EU regulations through the Northern Ireland protocol, and the Scottish government taking powers to voluntarily align with the EU in devolved policy areas.

## **Dargyfeirio rhwng Cymru a'r UE**

---

Mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, **Mick Antoniw, wedi datgan** na ddylai unrhyw lacio fod ar y safonau presennol a bod Llywodraeth Cymru eisiau gwella safonau yng Nghymru mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig. Fodd bynnag, dywedodd hefyd **wrth y Senedd** nad oes "mecanwaith canolog i fonitro gwahaniaethau rhwng cyfraith yr UE a chyfraith Cymru".

## **Rhwymedigaethau rhyngwladol**

---

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei gweithredoedd yn parhau i fod yn gydnaws â'i rhwymedigaethau rhyngwladol, fel yr eglurir yn **ein herthygl ddiweddar**. Mae'r rhain yn ddyletswyddau ac ymrwymadau mae'r DU wedi cytuno arnynt, neu reolau sy'n berthnasol yn gyffredinol, ac maent yn cynnwys trefniadau'r presennol a'r dyfodol rhwng y DU a'r UE.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ei hun yn gosod dyletswyddau monitro ar y DU a'r UE. Er enghraifft, mae **Erthygl 395** yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU a'r UE gyfarfod a chydweithio'n rheolaidd i fonitro a gorfodi eu cyfreithiau sy'n ymwneud â dim atchwelyd o ran yr amgylchedd a'r hinsawdd.

## **Dargyfeirio ac alinio rhwng cenhedloedd y DU**

---

Yn ogystal â dargyfeirio ac alinio rhwng y DU a'r UE, mae pedair gwlad y DU yn gallu dargyfeirio neu alinio oddi wrth ei gilydd mewn meysydd datganoledig a lywodraethwyd neu a gydlynwyd yn flaenorol gan yr UE. Er enghraifft, gall fod gan Gymru reolau gwahanol i'r Alban neu Loegr.

## **Fframweithiau cyffredin**

Mae llywodraethau'r DU a'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn negodi cytundebau ar sut i reoli gwahaniaethau mewn cyfraith a pholisi rhyngddynt er 2017. Gelwir y rhain yn 'fframweithiau cyffredin'.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng pedair llywodraeth y DU sy'n nodi sut byddant yn cydweithio mewn rhai meysydd a lywodraethwyd neu a gydgyssylltwyd ar lefel yr UE yn flaenorol - er enghraifft, ansawdd aer, diogelwch

bwyd a bygythiadau iechyd trawsffiniol. Mae **ein herthygl** yn rhoi cyflwyniad i fframweithiau cyffredin.

## Deddf Marchnad Fewnol 2020

**Cytunodd y llywodraethau yn 2017** y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin lle bo angen er mwyn sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithio, er mwyn atal rhwystrau masnachu anfwriadol rhag datblygu rhwng gwahanol rannau'r DU.

Fodd bynnag, roedd Llywodraeth y DU yn pryderu na fyddai fframweithiau cyffredin yn ddigon i wneud hyn. Ym mis Rhagfyr 2020, pasiodd Senedd y DU **Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Ni chydsyniodd** y deddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys y Senedd, â'r ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf hon yn gosod egwyddorion newydd yn y gyfraith o ran mynediad i'r farchnad. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau y gellir gwerthu neu gydnabod nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol a gaiff eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r DU mewn rhan arall.

## 3. Rheolau cyffredinol

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn pennu rheolau cyffredinol sy'n nodi targedau presennol y DU a'r UE a chyd-ddealltwriaeth, fel a ganlyn.

Ar **niwtraliaeth hinsawdd**:

- cyflawni niwtraliaeth hinsawdd drwy'r economi gyfan erbyn 2050.

Ar **safonau yn y dyfodol** a darpariaethau Tegwch yn y Farchnad, maent yn:

- egluro bod angen iddynt sefyll prawf amser o ran atal ystumiadau masnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a'r UE.
- cytuno nad cysoni safonau rhyngddynt yw eu pwrpas, er bod y ddwy ochr yn benderfynol o gynnal **a gwella** eu safonau uchel priodol; a
- chadarnhau eu hawl eu hunain i reoleiddio. Gall y ddwy ochr bennu eu lefelau priodol o amddiffyniad a mabwysiadu neu addasu eu cyfreithiau a'u polisiau mewn modd sy'n gyson â'u hymrwymyiadau rhyngwladol, gan gynnwys y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

O ran y **dull rhagofalus**, maent yn:

- cadarnhau eu dealltwriaeth gyffredin o'r 'dull rhagofalus'. Mae hwn yn amrywiad

ar yr egwyddor ragofalus, a ddefnyddir mewn materion **Llywodraethu amgylcheddol**. Mae'n golygu na ellir defnyddio diffyg tystiolaeth wyddonol fel rheswm dros beidio â chymryd mesurau sy'n anelu at atal bygythiadau posibl o niwed i'r amgylchedd neu i iechyd dynol.

- dyletswydd i ystyried gwybodaeth wyddonol a thechnegol berthnasol, sydd ar gael, safonau rhyngwladol, canllawiau ac argymhellion wrth baratoi neu weithredu mesurau i ddiogelu amodau llafur ac amgylcheddol a allai effeithio ar fasnach a buddsoddi.
- cytuno, er nad yw darpariaethau datrys anghydfodau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Tegwch yn y Farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, eu bod yn berthnasol i'r darpariaethau ar y dull rhagofalus.

## 4. Rheolau penodol: rheoli cymorthdaliadau

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn gosod dyletswydd ar y DU a'r UE i sefydlu a chynnal system effeithiol o reoli cymorthdaliadau.

Mae **ein herthygl** yn esbonio Bil Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth y DU a'r hyn mae'n ei olygu i Gymru. Mae'r Bil, y ceisiwyd **Cydsyniad y Senedd** ar ei gyfer, yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer trefn rheoli cymorthdaliadau'r DU ar ôl Brexit.

Dan delerau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gall y DU a'r UE benderfynu sut mae eu rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu wrth ddylunio cyfundrefn gymorthdaliadau, ar yr amod y cedwir at chwe egwyddor.

### **Erthygl 366: Chwe egwyddor rheoli cymorthdaliadau**

1. Mae cymorthdaliadau yn dilyn amcan polisi cyhoeddus penodol i unioni methiant a nodwyd yn y farchnad neu i fynd i'r afael â rhesymeg ecwiti fel anawsterau cymdeithasol neu bryderon dosbarthu (yr amcan).
2. Mae cymorthdaliadau yn gymesur ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan;
3. Mae cymorthdaliadau wedi eu cynllunio i achosi newid yn ymddygiad economaidd y buddiolwr sy'n ffafriol i gyflawni'r amcan ac na fyddai'n cael ei gyflawni pe na bai cymorthdaliadau'n cael eu darparu;
4. Ni ddylai cymorthdaliadau fel arfer wneud iawn am gostau y byddai'r buddiolwr wedi eu cyllido yn absenoldeb unrhyw gymhorthdal;



5. Mae cymorthdaliadau yn offeryn polisi priodol i gyflawni amcan polisi cyhoeddus ac ni ellir cyflawni'r amcan hwnnw drwy ddulliau eraill llai ystumiol;
6. Mae cyfraniadau cadarnhaol cymorthdaliadau at gyflawni'r amcan yn gorbwyso unrhyw effaith negyddol, yn enwedig yr effeithiau negyddol ar fasnach neu fuddsoddi rhwng y Partïon.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cwmpasu gwahanol fathau o gymorthdaliadau - y rhai sydd wedi eu gwahardd, y rhai sydd wedi eu gwahardd ond a ganiateir o dan rai amodau, neu'r rhai sydd wedi eu gwahardd ond bod eithriadau'n berthnasol.

Mae cymorthdaliadau eraill wedi eu heithrio o'i ddarpariaethau, fel y rhai sy'n ymwneud â'r sector clyweledol.

Rhai enghreifftiau o'r dyletswyddau a roddir ar y DU a'r UE yw bod yn rhaid i bob un ohonynt:

- sefydlu a chynnal cyrff a systemau penodol ar gyfer rheoli cymorthdaliadau - er enghraifft, sefydlu awdurdod gweithredol annibynnol;
- bod â mecanwaith adfer effeithiol ar waith;
- sicrhau bod eu llysoedd a'u tribiwnlysoedd yn gymwys i gyflawni rhai swyddogaethau; a
- chadw at ofynion tryloywder.

## Mesurau ail-gydbwyso yn berthnasol

Gellir defnyddio mesurau ail-gydbwyso mewn perthynas â rheoli cymorthdaliadau.

## Datrys anghydfodau

Mae gwahanol fathau o fesurau dialgar a datrys anghydfodau yn berthnasol i gymorthdaliadau, gan roi dewisiadau i'r DU a'r UE ar sut i ymateb pan fydd anghydfodau'n codi.

Yn gyffredinol, mae gweithdrefn datrys anghydfodau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn berthnasol i reoli cymorthdaliadau, ac eithrio'r darpariaethau ar awdurdodau annibynnol (Erthygl 371) ac ar lysoedd a thribiwnlysoedd (Erthygl 372).

Yn bwysig, mae Erthygl 375(2) yn darparu nad oes gan dribiwnlys cyflafareddu unrhyw awdurdodaeth ynghylch:

- cymorthdaliadau unigol, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig;
- a yw rhwymedi adennill wedi ei gymhwyso'n gywir mewn unrhyw achos unigol.

Mae mathau eraill o fesurau y gellir eu cymryd yn cynnwys:

- mesurau adfer unochrog o fewn 60 diwrnod pan fo cymorthdaliadau yn achosi (neu mewn perygl o achosi) effaith negyddol sylweddol ar fasnach neu fuddsoddi; a
- gellir cymhwysu mesurau ail-gydbwysu mewn perthynas â rheoli cymorthdaliadau.

## **Cytundebau ychwanegol rhwng y DU a'r UE yn ymwneud â rheoli cymorthdaliadau**

Ochr yn ochr â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, cytunodd y DU a'r UE ar **ddatganiad gwleidyddol ar y cyd** ar bolisi rheoli cymorthdaliadau. Mae hyn yn nodi eu cyd-ddealltwriaeth o dri math ychwanegol o gymorthdaliadau ar gyfer (i) datblygu ardaloedd difreintiedig, (ii) trafnidiaeth a (iii) ymchwil a datblygu.

Yn ogystal â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae Erthygl 10 o Brotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon ('y Protocol') y **Cytundeb Ymadael** yn berthnasol i unrhyw fesur cymhorthdal yn y DU sy'n effeithio ar fasnach rhwng Gogledd Iwerddon a'r UE. Yn ddiweddar cynigiodd Llywodraeth y DU newidiadau i'r Protocol, gan gynnwys disodli ei drefniadau rheoli cymorthdaliadau. Mae rhagor o wybodaeth wedi ei chynnwys yn ein **canllaw cyflym ar Erthygl 16 o'r Protocol**.

Mae **datganiadau** a **phenderfyniadau** Cyd-bwyllgor y DU-UE, sy'n **goruchwyllo'r Cytundeb Ymadael**, hefyd yn rhan o drefniadau DU-UE yn y maes hwn.

## **5. Rheolau penodol: safonau llafur a chymdeithasol**

Mae'r lefelau gwarchodaeth a ganlyn, yn y gyfraith ac yn safonau'r meysydd a ganlyn, wedi eu cynnwys yn y darpariaethau Tegwch yn y Farchnad:

- Hawliau sylfaenol yn y gwaith;
- Iechyd a diogelwch galwedigaethol;

- Amodau gwaith teg a safonau cyflogaeth;
- Hawliau gwybodaeth ac ymgynghori ar lefel cwmni;
- Ailstrwythuro ymgymeriadau.

Nid yw nawdd cymdeithasol a phensiynau wedi eu cynnwys yn yr egwyddor Tegwch yn y Farchnad ac maent wedi eu heithrio o fesurau ail-gydbwysu.

## **Dim atchwelyd**

Er eu bod yn gallu pennu eu blaenoriaethau, eu polisiau a'u cyfreithiau eu hunain yn y meysydd hyn, mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar ddyletswydd dim atchwelyd o ran safonau llafur a chymdeithasol. Maent hefyd yn ymrwymo i ymdrechu i gynyddu eu lefelau amddiffyniad llafur a chymdeithasol yn y meysydd a restrir uchod.

Mae hyn yn golygu bod y DU a'r UE yn ymrwymo i beidio â lleihau neu wanhau'r lefelau o ddiogelwch oedd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio (ar 31 Rhagfyr) mewn ffordd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddi rhyngddynt.

Mae hyn yn cynnwys methu â gorfodi eu cyfreithiau a'u safonau'n effeithiol, er bod y DU a'r UE wedi cytuno y gellir hepgor y ddyletswydd hon i roi blaenoriaeth i orfodi cyfreithiau llafur eraill sydd â blaenoriaeth uwch.

## **Mesurau ail-gydbwysu**

Gellir cymhwyso mesurau ail-gydbwysu mewn perthynas ag amrywiaeth mewn safonau llafur a chymdeithasol.

## **Gorfodi**

Er mwyn gorfodi'r darpariaethau hyn, mae'n rhaid i'r DU a'r UE sefydlu a chynnal system ar gyfer gorfodi domestig effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Archwiliadau llafur ar gyfer amodau gwaith ac amddiffyn gweithwyr;
- Sicrhau bod achosion gweinyddol a barnwrol ar gael sy'n caniatáu i unigolion ac awdurdodau cyhoeddus ddwyn achos yn erbyn troseddau; a
- Darparu ar gyfer rhwymedïau a sancsiynau effeithiol.

Wrth weithredu a gorfodi'r darpariaethau dim atchwelyd, rhaid i'r DU a'r UE barchu rôl ac ymreolaeth partneriaid cymdeithasol ar lefel genedlaethol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **gynigion** i sefydlu un corff gorfodi newydd ar gyfer hawliau cyflogaeth ym mis Mehefin 2021.

## **Datrys anghydfodau**

Mae gan y DU a'r UE ddewisiadau cyfyngedig i ddatrys anghydfodau mewn perthynas â darpariaethau Tegwch yn y Farchnad ar safonau llafur a chymdeithasol.

Nid yw gweithdrefn datrys anghydfodau cyffredinol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn berthnasol.

Yn lle hynny, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn mynnu eu bod yn gwneud pob ymdrech drwy ddeialog, ymgynghori, cyfnewid gwybodaeth a chydweithio i fynd i'r afael ag anghytundebau.

Gellir defnyddio rhai rhannau o bennod Tegwch yn y Farchnad ar lywodraethu, sydd wedi eu crynhoi yn **adran 8 o'r papur hwn**.

## **Safonau a chytundebau llafur rhyngwladol**

Mae dyletswyddau sy'n ymwneud â safonau a chytundebau llafur rhyngwladol wedi eu cynnwys yn y darpariaethau Tegwch yn y Farchnad ar ddatblygu cynaliadwy.

Rhaid i'r DU a'r UE:

- Wneud pob ymdrech i gadarnhau a gweithredu Confensiynau sylfaenol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol a'i safonau llafur craidd (rhyddid i ymgysylltu a chydnabod hawliau bargeinio ar y cyd, dileu pob math o lafur dan orfod neu lafur gorfodol, diddymu llafur plant yn effeithiol a dileu gwahaniaethu mewn perthynas â chyflogaeth a galwedigaeth);
- Cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am statws cadarnhau Confensiynau a phrotocolau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac 'offerynnau rhyngwladol perthnasol eraill';
- Cadarnhau Siarter Gymdeithasol Ewropeaidd Cyngor Ewrop;
- Parhau i hyrwyddo Agenda Gwaith Teilwng y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac ymrwymadau rhyngwladol eraill o ran amodau gwaith boddhaol, iechyd a diogelwch yn y gwaith a pheidio â gwahaniaethu mewn perthynas ag amodau gwaith;
- Diogelu a hyrwyddo deialog cymdeithasol ymhlith gweithwyr a chyflogwyr ar faterion llafur;

- Cydweithio ar agweddau sy'n ymwneud â masnach ar bolisiau a mesurau llafur, gan gynnwys mewn fforymau amlochrog; ac
- Ystyried barn cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr a sefydliadau cymdeithas sifil wrth nodi meysydd cydweithredu a gweithgareddau ar y cyd.

## 6. Rheolau penodol: yr amgylchedd a'r hinsawdd

Mae Tegwch yn y Farchnad yn berthnasol i'r amgylchedd a'r hinsawdd. Maent yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

**'Lefelau o amddiffyniad amgylcheddol'** yw'r lefelau o amddiffyniad lle mai gwarchod yr amgylchedd yw eu pwrpas, gan gynnwys atal perygl i fywyd dynol neu iechyd rhag effeithiau amgylcheddol.

Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Allyriadau diwydiannol;
- Allyriadau aer ac ansawdd aer;
- Cadwraeth natur a bioamrywiaeth;
- Rheoli gwastraff;
- Diogelu a chadw'r amgylchedd dyfrol;
- Diogelu a chadw amgylchedd y môr;
- Atal, lleihau a dileu risgiau i iechyd dynol neu'r amgylchedd sy'n deillio o gynhyrchu, defnyddio, rhyddhau neu waredu sylweddau cemegol;
- Rheoli effeithiau amaethyddol neu gynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd, yn arbennig drwy ddefnyddio gwrthfotigau a diheintyddion.

Mae **'Lefel amddiffyniad hinsawdd'** yn golygu lefel yr amddiffyniad mewn perthynas ag allyriadau a thynnu nwyon tŷ gwydr a rhoi terfyn yn raddol ar ddefnyddio sylweddau sy'n disbyddu osôn. Ar gyfer nwyon tŷ gwydr, mae hyn yn golygu:

- Ar gyfer y DU, ei chyfran economi gyfan o darged 2030 yr UE (torri allyriadau **o leiaf 55% erbyn 2030**), gan gynnwys ei system ar gyfer prisio carbon.
- Ar gyfer yr UE, cyfran yr economi gyfan o 40% o'i tharged ar gyfer 2030, gan gynnwys ei system ar gyfer prisio carbon.



## **Dim atchwelyd**

Er eu bod yn gallu pennu eu blaenoriaethau, eu polisiau a'u cyfreithiau eu hunain yn y meysydd hyn, mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar ddyletswydd dim atchwelyd ar gyfer safonau'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw darged sydd wedi ei ymgorffori yn eu cyfreithiau domestig, hyd yn oed os yw'r targed yn anelu at ddyddiad yn y dyfodol.

Maent hefyd yn ymrwymo i ymdrechu i gynyddu eu lefelau diogelu'r amgylchedd a hinsawdd yn y meysydd a restrir uchod.

Mae hyn yn golygu bod y DU a'r UE yn ymrwymo i beidio â lleihau neu wanhau'r lefelau o ddiogelwch oedd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio (ar 31 Rhagfyr) mewn modd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddi rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys methu â gorfodi ei chyfraith a'i safonau yn effeithiol.

Mae hyn yn cynnwys methu â gorfodi eu cyfreithiau a'u safonau'n effeithiol, er bod y DU a'r UE wedi cytuno y gellir hepgor y ddyletswydd hon i roi blaenoriaeth i orfodi cyfreithiau eraill ynghylch yr amgylchedd a'r hinsawdd sy'n flaenoriaeth uwch.

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd a chorff goruchwylio'r DU ddyletswydd i gyfarfod yn rheolaidd ac i gydweithredu ar fonitro a gorfodi cyfraith yr amgylchedd a hinsawdd mewn perthynas â dim atchwelyd.

## **Prisio carbon**

---

O 1 Ionawr 2021, roedd yn ofynnol i'r DU a'r UE fod â system brisio carbon ar waith, sy'n cwmpasu allyriadau nwyon tŷ gwydr o gynhyrchu trydan, cynhyrchu gwres, diwydiant a hedfan.

Rhoddir mwy o amser i ymgorffori prisio carbon o ran awyrennau. Rhaid ei gynnwys erbyn 1 Ionawr 2023, os nad yw hynny'n digwydd yn barod. Bydd system yr UE yn cynnwys hediadau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd i'r DU.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn dweud bod yn rhaid i'r DU a'r UE gynnal eu systemau cyhyd â'u bod yn arf effeithiol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Mae dyletswydd wedi ei chynnwys ar y DU a'r UE i gydweithredu ar brisio carbon, gan gynnwys bod yn rhaid iddynt roi ystyriaeth ddifrifol i gysylltu eu systemau yn y dyfodol.

## Egwyddorion yr amgylchedd a'r hinsawdd

---

Mae'r DU a'r UE ill dau yn ymrwymo i barchu egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Rhestrir rhai enghreifftiau yn y rhan hon o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (mae mwy wedi eu cynnwys yn ddiweddarach yn y canllaw hwn) – er enghraifft, Datganiad Rio 1992, Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol.

Mae Erthygl 393 yn nodi, yn benodol, y dylid parchu'r pum egwyddor hyn:

1. Dylid integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisiau
2. Egwyddor gweithredu ataliol
3. Dull gweithredu rhagofalus
4. Dylai niwed amgylcheddol gael ei unioni yn y ffynhonnell
5. Egwyddor y llygrwr sy'n talu

Mae'r DU a'r UE hefyd yn ailddatgan eu hymrwymadau i weithdrefnau presennol ar gyfer gwerthuso'r effaith amgylcheddol debygol, gan gynnwys drwy asesiadau effaith amgylcheddol ac asesiadau amgylcheddol strategol. Mae enghreifftiau o weithdrefnau penodol, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, hefyd wedi eu nodi.

## Mesurau ail-gydbwyso

Gellir cymhwyso mesurau ail-gydbwyso mewn perthynas â dargyfeirio mewn safonau amgylcheddol a'r hinsawdd.

## Gorfodi

At ddibenion gorfodi, rhaid i'r DU a'r UE sicrhau:

- Bod gan eu hawdurdodau domestig rwymedïau digonol ac effeithiol ar gael iddynt, gan gynnwys rhyddhad gwaharddol a sancsiynau; a bod
- Achosion gweinyddol a barnwrol cenedlaethol ar gael i bersonau naturiol a chyfreithiol, nad yw'r rhain yn afresymol o gostus a'u bod yn cael eu cynnal mewn ffordd deg, gyfiawn a thryloyw.

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd a chorff goruchwylio'r DU ddyletswydd i gyfarfod yn rheolaidd ac i gydweithredu ar fonitro a gorfodi cyfraith yr amgylchedd a

hinsawdd mewn perthynas â dim atchwelyd.

## **Datrys anghydfodau**

Mae gan y DU a'r UE ddewisiadau cyfyngedig i ddatrys anghydfodau mewn perthynas â darpariaethau Tegwch yn y Farchnad ar safonau amgylcheddol a'r hinsawdd.

Nid yw gweithdrefn datrys anghydfodau cyffredinol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn berthnasol.

Yn lle hynny, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn mynnu eu bod yn gwneud pob ymdrech drwy ddeialog, ymgynghori, cyfnewid gwybodaeth a chydweithio i fynd i'r afael ag unrhyw anghytundeb.

Gellir defnyddio rhai rhannau o'r bennod Tegwch yn y Farchnad ar lywodraethu. Crynhoir y rhain yn **adran 8 y canllaw hwn**.

## **Cytundebau amgylcheddol rhyngwladol**

Mae darpariaethau Tegwch yn y Farchnad yn gosod dyletswyddau helaeth ar y DU a'r UE o ran cytundebau a mentrau amgylcheddol rhyngwladol, gan gynnwys:

- gweithredu, dilyn neu hyrwyddo cytundebau amgylcheddol amlochrog yn effeithiol, gan gynnwys Cytundeb Paris, Confensiwn Cyfraith y Môr a chytundebau Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig;
- cyfnewid gwybodaeth am statws cadarnhau a gweithredu cytundebau amgylcheddol rhyngwladol, trafodaethau parhaus ar gytundebau amlochrog newydd a'u barn ar ddod yn barti i gytundebau ychwanegol;
- cydweithio ar agweddau sy'n ymwneud â masnach ar bolisiau a mesurau amgylcheddol, gan gynnwys mewn fforymau amlochrog; ac
- ystyried barn neu fewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid â diddordeb ar gyfer diffinio a gweithredu cydweithredu rhwng y DU a'r UE.

## **7. Datblygu Cynaliadwy**

Er nad yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn diffinio 'datblygu cynaliadwy', mae Erthygl 355 yn cydnabod bod datblygu cynaliadwy yn cwmpasu:

**economic development, social development and environmental protection, all three being interdependent and mutually reinforcing, and**

affirm their commitment to promoting the development of international trade and investment in a way that contributes to the objective of sustainable development.

Nod darpariaethau Tegwch yn y Farchnad yw gwella'r broses o integreiddio datblygu cynaliadwy yn y berthynas masnachu a buddsoddi rhwng y DU a'r UE. Mae'n gwneud hyn mewn pedair ffordd:

1. Yn gyntaf, mae'n cynnwys nifer o ddyletswyddau sy'n ymwneud ag **offerynnau rhyngwladol** ynghylch materion llafur a chymdeithasol a'r amgylchedd a hinsawdd.
2. Yn ail, mae'n cynnwys nifer o **adrannau sy'n canolbwyntio ar fasnach a meysydd amgylcheddol penodol** sy'n gosod dyletswyddau lluosog ar y DU a'r UE mewn perthynas â:
  - Masnach a newid hinsawdd;
  - Masnach ac amrywiaeth biolegol;
  - Masnach a choedwigoedd;
  - Masnach a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau biolegol morol a dyframaeth;
  - Masnach a buddsoddi o blaid datblygu cynaliadwy; a
  - Masnach a rheoli cadwyni cyflenwi yn gyfrifol.
3. Yn drydydd, mae'n **gosod rhai gofynion tryloywder**, gan gynnwys hyrwyddo cyfranogiad, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd a chyhoeddi gwybodaeth.
4. Yn bedwerydd, mae'n cyfyngu anghydfodau datblygu cynaliadwy i ymgynghoriadau drwy **weithdrefn datrys anghydfodau Tegwch** yn y Farchnad.

## 8. Datrys anghydfodau

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu proses anghydfodau bwrpasol o ran Tegwch yn y Farchnad. Gwneir hyn drwy ymgynghori, sy'n golygu bod y partiön yn trafod eu hanghydfod rhyngddynt eu hunain i geisio dod o hyd i ateb. Maent yn gallu:

- estyn allan at eraill am wybodaeth – er enghraifft, cyrff rhyngwladol, sefydliadau ac arbenigwyr; a
- sefydlu panel o arbenigwyr i'w cynorthwyo yn eu trafodaethau ac i wneud argymhellion nad ydynt yn rhwymol i awgrymu ffordd ymlaen.

Nodir isod y broses lawn isod:

### **Tegwch yn y Farchnad, Pennod Naw: Darpariaethau llorweddol a sefydliadol**

**Ymgynghoriadau Erthygl 408** = Mae'r erthygl hon yn nodi'r broses sydd ar gael i'r DU a'r UE ymgynghori â'i gilydd ynghylch anghytundebau am safonau llafur a chymdeithasol, yr amgylchedd a'r hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Mae'r broses yn dechrau gyda chais ysgrifenedig gan un parti i'r llall, ac wedi hynny rhaid i ymgynghoriadau ddechrau o fewn 30 diwrnod. Gallant fynd at gyrff neu sefydliadau rhyngwladol am gyngor, neu ofyn am farn eu Grwpiau Cynghori Domestig a sefydlwyd gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**Erthygl 409 Panel o arbenigwyr** = Gellir sefydlu panel o arbenigwyr annibynnol os na fydd anghytundeb yn cael ei ddatrys o fewn 90 diwrnod. Mae arbenigwyr yn cael eu dewis o restr sy'n cael ei chreu a'i chynnal gan [bwyllgor newydd y DU-UE](#), y Pwyllgor Masnach Arbenigol ar Degwch yn y Farchnad o ran Cystadleuaeth Agored a Theg a Datblygu Cynaliadwy.

Gall y panel hefyd ofyn am gyngor gan gyrff a sefydliadau rhyngwladol a bydd yn cyhoeddi adroddiad interim a therfynol yn cynnwys argymhellion nad ydynt yn rhwymol o fewn 100 diwrnod, y gall y naill barti neu'r llall ofyn am gael eu hadolygu. Nid oes angen i'r parti a ymatebodd ddilyn yr argymhellion yn yr adroddiad.

Yn y pen draw, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno o fewn 195 diwrnod, i'w gyhoeddi 15 diwrnod wedi hynny. 105 diwrnod ar ôl ei gyflwyno, rhaid i'r parti sy'n ymateb roi gwybod i'w Grwpiau Cynghori Domestig a'r parti arall am fesurau i'w rhoi ar waith. Gall Grwpiau Cynghori Domestig gyflwyno sylwadau ar y camau dilynol i'r Pwyllgor Masnach Arbenigol, a fydd yn monitro'r camau hynny. Gall y parti sy'n cwyno gysylltu â'r panel o arbenigwyr eto ynghylch unrhyw anghydfurfiaeth barhaus a bydd y panel yn cyhoeddi ei ganfyddiadau ymhen 45 diwrnod arall.

### **Erthygl 410 Panel o arbenigwyr ar gyfer meysydd dim atchwelyd =**

Mae'r erthygl hon yn ychwanegu y gellir defnyddio rhwymedïau dros dro mewn perthynas ag anghydfodau. Mae'r DU a'r UE yn cytuno, pan fo'r parti sy'n ymateb yn dewis peidio â chymryd unrhyw gam i gydymffurfio ag adroddiad y panel arbenigol neu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, bod rhwymedïau dros dro ar gael i'r parti sy'n cwyno.



## 9. Adolygu

Mae gan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu broses adolygu benodol ar gyfer ei ddarpariaethau Tegwch yn y Farchnad. Mae hyn wedi ei nodi yn Erthygl 411 a'i nod yw sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y DU a'r UE yn y tymor hwy.

Bydd yr adolygiad yn mynd i'r afael â'r cwestiwn a yw'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn darparu cydbwysedd priodol o hawliau a rhwymedigaethau rhwng y DU a'r UE (yn enwedig o ran masnach) ac a oes angen addasu ei delerau mewn unrhyw ffordd.

Nid yw gweithdrefn datrys anghydfodau cyffredinol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn berthnasol i'r adolygiad hwn.

Crynoir proses adolygu Tegwch yn y Farchnad isod.

### **Proses adolygu Tegwch yn y Farchnad:**

O 1 Ionawr 2025, bedair blynedd ar ôl i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ddod i rym, gall y naill barti neu'r llall wneud cais am adolygiad o weithrediad ei ddarpariaethau masnach, a gynhwysir ym Mhennawd Un yn Rhan Dau. Gellir ychwanegu rhagor o Benawdau at y broses adolygu Tegwch yn y Farchnad, os bydd y ddwy ochr yn cytuno.

Yn ogystal, gall adolygiad ddechrau'n gynharach ar gais y naill barti neu'r llall, os ydynt o'r farn:

- bod mesurau ail-gydbwyso neu fesurau a gymerwyd gan ddefnyddio'r weithdrefn mesurau ail-gydbwyso wedi eu cymryd yn aml gan y naill barti neu'r llall neu'r ddwy ochr; neu bod
- mesur sy'n cael effaith sylweddol ar fasnach neu fuddsoddi wedi ei gymhwyso am gyfnod o 12 mis.

Mewn perthynas ag adolygiad cynharach, rhaid i'r mesurau dan sylw fod yn rhai nad ydynt wedi eu herio, na chanfu'r tribiwnlys cyflafareddu eu bod yn anghyson ac nad ydynt wedi bod yn destun y weithdrefn gymrodeddu.

Bydd adolygiad yn dechrau o fewn tri mis a bydd yn dod i ben o fewn chwe mis. Gellir ei ailadrodd bob pedair blynedd o dan yr erthyglau hyn neu ar ôl i gytundeb diwygio ddod i rym.

## **Rôl y Cyngor Partneriaeth**

---

Gall **Cyngor Partneriaeth y DU-UE** benderfynu nad oes angen gweithredu yn dilyn adolygiad.

Fodd bynnag, os yw un parti o'r farn bod angen diwygio'r darpariaethau Tegwch yn y Farchnad, rhaid i'r DU a'r UE wneud eu gorau glas i drafod a chwblhau cytundeb sy'n gwneud y diwygiadau angenrheidiol.

Os na wneir hyn o fewn blwyddyn, gall y naill barti neu'r llall roi tri mis o rybudd i derfynu Pennawd Un ar Fasnach neu unrhyw Bennawd arall a ychwanegwyd at yr adolygiad, neu gallant benderfynu parhau i drafod.

Os bydd Pennawd Un ar Fasnach yn cael ei derfynu yn y modd hwn, bydd Pennawd Dau ar Hedfan hefyd yn cael ei derfynu ar yr un dyddiad **oni bai** y cytunir y bydd darpariaethau Tegwch yn y Farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cael eu hymgorffori ym Mhennawd Dau.

## Atodiad: Mesurau ail-gydbwyso yn fanwl

Mae'r Atodiad hwn yn esbonio'r weithdrefn ar gyfer cymryd mesurau ail-gydbwyso, a ddisgrifir yn **adran 2 y canllaw hwn**.

Diben darpariaethau Tegwch yn y Farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yw cynnal, cyn belled ag y bo modd, safonau gofynnol llafur a chymdeithasol, amgylcheddol a'r hinsawdd a rheoli cymorthdaliadau ar gyfer masnachu a buddsoddi rhwng y DU a'r UE.

Er bod y ddwy ochr wedi mynegi eu dymuniad a'u bwriad i wella eu safonau presennol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, mae'n bosibl y bydd eu safonau'n amrywio yn y dyfodol.

Os bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar fasnach neu fuddsoddi rhwng y DU a'r UE, gall y naill barti neu'r llall gymryd camau ail-gydbwyso i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Gellir cymryd camau ail-gydbwyso mewn perthynas â:

- safonau llafur a chymdeithasol;
- safonau amgylcheddol neu'r hinsawdd; neu
- reoli cymorthdaliadau

Mae rhywfaint o eglurder a gofynion wedi eu nodi yn Erthygl 411:

Such measures shall be restricted with respect to their scope and duration to what is strictly necessary and proportionate in order to remedy the situation.

Priority shall be given to such measures as will least disturb the functioning of this Agreement.

A Party's assessment of these impacts shall be based on reliable evidence and not merely on conjecture or remote possibility.

Darperir eglurder pellach drwy weithdrefn i'w dilyn wrth gymryd camau ail-gydbwyso, a ddisgrifir isod:

### Mesurau ail-gydbwyso: gweithdrefn

**Cam 1** = Mae'r parti dan sylw yn rhoi gwybod i'r parti arall am y mesurau mae'n bwriadu eu cymryd drwy'r Cyngor Partneriaeth.

**Cam 2** = Bydd y partïon yn cynnal ymgynghoriadau ar unwaith am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad.

**Cam 3** = Os na cheir ateb, gellir mabwysiadu'r mesurau ail-gydbwyso 5 diwrnod ar ôl diwedd yr ymgynghoriad **oni bai** bod y parti sy'n ymateb yn gofyn am sefydlu tribiwnlys cyflafareddu drwy gais ysgrifenedig i'r parti dan sylw o fewn yr un 5 diwrnod.

Os byddant yn methu â chyflwyno'r cais ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod, gallant barhau i gychwyn y weithdrefn gyflafareddu gan ddefnyddio'r weithdrefn datrys anghydfodau cyffredinol heb orfod ymgynghori ac fel achos brys. Dim ond os yw'r mesurau ail-gydbwyso yn gyson â'r gofynion a nodir uchod mae'n rhaid i'r tribiwnlys yn y weithdrefn honno benderfynu - ni all ddileu mesurau na chyhoeddi gorchmynion i roi'r gorau i fesurau.

**Cam 4** = Rhaid i'r tribiwnlys cyflafareddu gyflwyno ei ddyfarniad terfynol o fewn 30 diwrnod. Os na fydd yn gwneud hynny, gall y parti dan sylw fabwysiadu ei fesurau ail-gydbwyso 3 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 30 diwrnod. Yn ogystal, gall y parti sy'n ymateb fabwysiadu gwrth-fesurau sy'n gymesur â'r mesurau ail-gydbwyso yn y cyfamser nes bod y tribiwnlys yn cyflawni ei ddyfarniad.

**Cam 5** = Dyfarniad tribiwnlys:

(a) Os bydd y tribiwnlys yn canfod bod y mesurau ail-gydbwyso yn gyson â'r gofynion a ddisgrifir uchod, caiff y parti dan sylw fabwysiadu'r rhain.

(b) Os bydd y tribiwnlys yn canfod bod y mesurau ail-gydbwyso'n anghyson, rhaid i'r parti dan sylw, o fewn tri diwrnod i'r dyfarniad, roi gwybod i'r parti sy'n ymateb am y mesurau mae'n bwriadu eu mabwysiadu i gydymffurfio â'r dyfarniad, gan gynnwys tynnu'n ôl neu addasu'r mesurau ail-gydbwyso.

Os mabwysiadwyd gwrth-fesurau gan y parti a ymatebodd, rhaid eu tynnu'n ôl o fewn pum niwrnod i'r dyfarniad (ond ar unwaith, os yn bosibl).